## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

CC: David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

13 Hydref 2014

Annwyl Carl

**Barn resymedig y Comisiwn Ewropeaidd ar wastraff mercwri metelaidd**

Mae swyddogion y Cynulliad wedi dwyn fy sylw at benderfyniad diweddar y Comisiwn Ewropeaidd i anfon barn resymedig i Lywodraeth y DU ynghylch ei methiant i drosi Cyfarwyddeb 2011/97/EU yn llawn, a chydymffurfio â hi, sef cyfarwyddeb sy'n ymwneud â storio gwastraff mercwri metelaidd.

Cyhoeddwyd hyn fel rhan o'r pecyn o achosion o dorri amodau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ddiwedd mis Medi, lle nodwyd y wybodaeth ganlynol yng nghyswllt y DU:

> **Environment: Commission asks United Kingdom to update mercury legislation**
> The European Commission is urging **the United Kingdom** to complete the enactment of an amendment to EU legislation on the storage of metallic mercury considered as waste in its domestic law (Directive 2011/97/EU). After examining amendments to the UK's Environmental Permitting regulations, and to Scotland's Landfill Regulations, the Commission is not convinced that this amendment to mercury storage legislation has been clearly and sufficiently enacted. The amendment concerns technical requirements for the temporary storage of metallic mercury, an element that is highly toxic to humans, ecosystems and wildlife element. A reasoned opinion is therefore being sent, and if the UK fails to act within two months, the case may be referred to the EU Court of Justice [http://europa.eu/rapid/press-release_MEMO-14-537_en.htm?locale=en]

Yn dilyn hynny, cysylltodd swyddogion y Cynulliad â'r Comisiwn Ewropeaidd i gadarnhau ai dim ond i'r Alban yr oedd y methiant yn berthnasol neu a oedd yn cynnwys Cymru a Lloegr. Cadarnhaodd cabinet Janez Potočnik, Comisiynydd

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA


Ffôn / Tel: 029 2089 8639
E-bost / E-mail: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

Amgylchedd yr UE, fod eu pryderon ynghylch y methiant i drosi'r Gyfarwyddeb yn llawn hefyd yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Mae methu â chydymffurfio â deddfwriaeth yr UE yn amlwg yn fater difrifol. Felly, mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at yr ymateb i'r farn resymedig, ac a ydych yn fodlon bod Cyfarwyddeb 2011/97/EU wedi'i throsi'n llawn yng Nghymru, ac a gynigir unrhyw gamau pellach i ymateb i'r pryderon a godwyd.

Anfonir copi o'r llythyr at David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan fod hwn yn fater sydd o ddiddordeb i'r ddau Bwyllgor.

Yn gywir,



**Alun Ffred Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**